



Cysgodfa tywydd eithafol

Trosolwg

Beth yw tywydd eithafol? Pa effeithiau y mae'n eu cael ar eich cymuned? Yn y gweithgaredd hwn, byddwch chi'n ymgymryd â'r rôl fel peiriannydd sydd â'r dasg o adeiladu cysgodfa a'i pharatoi yn erbyn dau fath gwahanol o dywydd eithafol. Ydych chi'n barod am yr her?




Amser gofynno

60 munud



Deunyddiau gofynnol

- Amrywiaeth o ddeunyddiau adeiladu cysgodfa/deunyddiau wedi'u hailgylchu.
- Sisyrrau
- Glud
- "Efelychwyr" tywydd eithafol - pibell ddŵr/bwced o ddŵr/sbyngau, gwyntyll/sychwr gwallt.
- Pren mesur
- Amserydd/larwm



Camau'r gweithgaredd

01 Ymchwil

Beth ydyn ni'n ei olygu pan rydyn ni'n dweud tywydd eithafol? Gwylwch y fideo [yma](#) I ddysgu rhagor.

Gan ddefnyddio'r [ddolen](#) hon, a allwch chi ymchwilio i'r holl fathau o dywydd eithafol?

Ysgrifennwch rai ffeithiau allweddol a ganfyddwch am bob math gwahanol o dywydd eithafol a grybwyllir i adeiladu ffeil ffeithiau fach.

Awgrym

A oes unrhyw ddigwyddiadau tywydd eithafol eraill na chrybwyllwyd y gallwch chi feddwl amdanynt?

Ychwanegwch nhw at eich nodiadau i'w hymchwilio.

02 Cynllunwch eich cysgodfa

Llongyfarchiadau, rydych chi wedi cael rôl peiriannydd. Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi ymchwilio iddi uchod am dywydd eithafol, rhoddwyd y dasg i chi adeiladu strwythur i'w baratoi yn erbyn dau fath o dywydd eithafol. Glaw trwm a gwyntoedd cryfion yw'r rhain. Mae angen i chi adeiladu strwythur a all wrthsefyll y storm!


Mae'r meini prawf a roddwyd i chi isod:

- Rhaid i'r gysgodfa allu ffitio ffigur tegan ynddo y mae'n rhaid iddo aros yn sych.
- Mae gennych 30 munud i adeiladu'ch cysgodfa cyn i'r tywydd eithafol gyrraedd.
- Rhaid iddo gael 4 wal a tho.
- Rhaid iddo fod o leiaf 30cm o uchder ac 20cm o led.

Yn gyntaf, crëwch gynllun ar bapur gyda'ch tîm peirianeg neu wrth weithio ar eich pen eich hun o'r hyn rydych chi am i'ch cysgodfa edrych fel a pha ddefnyddiau y byddwch chi'n eu defnyddio. Ar ôl i chi benderfynu beth rydych chi am ei wneud, a gyda'ch cynlluniau, ymgynghorwch â'ch teulu ynghylch eich dyluniad a chyfiawnhau pam rydych chi'n ei adeiladu fel hyn gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i hennill o'ch ymchwil.

Awgrym

I ychwanegu anhawster at hyn, trafodwch faint o law a allai ddisgyn - mae 2cm i 20cm yn wahaniaeth enfawr a bydd rhaid paratoi eich cysgodfa ar gyfer hyn! Ni fyddwch yn gwybod nes bydd y digwyddiad drosodd faint o law sydd wedi cwmpo felly byddwch yn barod ar gyfer pob posibilrwydd.



03 Adeiladwch eich cysgodfa

Gan ddefnyddio'r holl ddeunyddiau rydych chi wedi'u casglu, gan gynnwys eich cynlluniau a'r meini prawf, dechreuwch adeiladu eich lloches.

Cofiwch, mae terfyn amser, gosodwch larwm fel eich bod chi'n cofio. Mae'n bwysig bod gennych gysgodfa wedi'i pharatoi ar gyfer pan fydd y storm yn cyrraedd.

04 Paratowch ac adolygu

Mae'r gwynt a'r glaw wedi cyrraedd. Gadewch i ni weld pa mor barod yw'ch cysgodfa:

Gwynt

Crëwch wynt trwy droi sychwr gwallt neu wyntyll ymlaen a'i osod ger eich cysgodfa. Yna gallwch chi gynyddu'r gosodiadau gan ddibynnu ar ba mor gryf rydych chi am i'r gwyntoedd fod. Arbrofwch â hyn i weld sut mae'ch cysgodfa yn ymdopi â gwahanol gryfderau gwynt.

Diogelwch

cofiwch gadw dŵr i ffwrdd o'r gwyntyll/sychwr gwallt. Os ydych chi'n ansicr, gofynnwch i oedolyn eich helpu chi.

Glaw

Gan ddefnyddio sbyngau gwlyb, pibell ddŵr neu fwced (yn dibynnu ar ba mor drwm y bydd y glaw yn eich barn chi) gwiriwch a fydd eich strwythur yn gwrthsefyll y llifogydd. Profwch hyn am 1 munud ac yna aseswch y difrod.

Wrth i chi adolygu'r difrod a achoswyd, meddyliwch am y cwestiynau hyn isod:

- Beth oedd yn gweithio?
- Beth allai fod angen ei newid y tro nesaf?
- Oeddech chi'n teimlo bod y terfyn amser wedi helpu?
- A allwch chi feddwl am unrhyw dywydd mwy eithafol y gallech chi baratoi eich cysgodfa ar ei gyfer? Er enghraifft, cenllysg (Ar gyfer hyn, fe allech chi ddefnyddio cerrig mân).

Os hoffech chi ddysgu rhagor am ddigwyddiadau tywydd eithafol y gorffennol yn y DU, gallwch ganfod rhagor yma.